# DINESYDD Ionawr

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1979 Rhif 55

# Dr David Owen dros y Cynulliad

**Daeth yr Ysgrifennydd Tramor, Dr. David Owen, i Landrindod ddydd Sadwrn, Ionawr 6ed i annerch Rali Genedlaethol Ymgyrch Cymru dros y Cynulliad. Dywedodd nad dadl fecanyddol, gyfreithiol neu gyfansoddiadol mo'r penderfyniad ar Fawrth 1af; cynrychiolai achos gwleidyddol mawr sy'n ganolog i wleidyddiaeth ddemocrataidd, a'i wreiddiau yn y nod ardderchog o hunan-lywodraeth.**

Yng Nghymru, meddai Dr. Owen, mae'n deillio o ganlyniadau milwrol gorchfygu Llywelyn Ein Llyw Olaf ym 1282. Daeth i'r wyneb eto yn ei ffurf fwyaf dramatig yng ngwrthryfel Glyndwr ddechrau'r bymthegfed ganrif.

Soniodd yr Ysgrifennydd Tramor am y gwrthdaro sylfaenol mewn syniadau am lywodraeth rhwng yr athroniaeth unigolyddol a'r athroniaeth dorfol, rhwng y ddadl fod yn rhaid i lywodraeth fod yn llai canolog ac yn fwy perthnasol i'r unigolyn a'r wrth-ddadl y gall gwladwriaeth ganolog sicrhau unffurfiaeth lesol drwy godi safon byw pawb; yr agwedd olaf hon a fu yn yr oruchafiaeth yn y Deyrnas Unedig ers canrifoedd bellach.

Dywedodd Dr. Owen, tra'i fod ef yn rhoi pwys mawr ar fenter ac amrywiaeth unigolion, dymunai hefyd weld gweithredu torfol, datblygu ar raddfa gymunedol a chynllunio canolog, felly yr oedd ganddo ef ddiddordeb mawr mewn gweinyddiaeth dda a gweinyddwyr sensitif a fyddai'n ymateb i reolaeth ddemocrataidd a barn y cyhoedd. Aeth ymlaen i gyfeirio at waith Robert Owen, y Drenewydd, Cymro a ddylanwadodd yn fwy na neb arall o bosib ar y ddau fudiad mawr, Sosialaeth a Chydweithrediad. Yr oedd gan Robert Owen weledigaeth o hunan-lywodraeth a rhyddid, a rhoddai bwys mawr ar yr unigolyn ac ar amgylchedd yr unigolyn hwnnw, gan y credai mai hynny a ffurfiai syniadau cymdeithasol a moesegol yr unigolyn.

Yn wyneb y ffordd y mae Llywodraeth Ganolog y Deyrnas Unedig wedi tyfu a thyfu dros y ganrif ddiwethaf, gwelai Dr. Owen Gynulliadau i Gymru a'r Alban fel ychwanegiad doeth at lywodraeth ddemocrataidd. O'n holl gyd-aelodau yn y Gymuned Ewropeaidd, ni, meddai, oedd â'r llywodraeth fwyaf canolog ei ffurf ag eithrio Ffrainc. Ond bellach, yr oedd hinsawdd ryngwladol yn datblygu o dan ysgogiad awydd dinasyddion i ad-ennill mwy o reolaeth dros eu bywydau eu hunain, ac i newid y cydbwysedd rhwng biwrocratiaeth a democratiaeth.

Yr oedd y bleidlais ar Fawrth 1af, meddai Dr. Owen, yn ddewis hanesyddol p'run ai i barhau â'r *status quo* neu i symud i gyfeiriad mwy o hunan-lywodraeth, ond yr oedd un peth yn sicr; pe penderfynid bryd hynny i barhau â'r *status quo*, ni fyddai'r ymgyrch drosodd yng Nghymru — byddai'r gwahaniaethau'n parhau. Byddai pleidlais "Ie" ar y llaw arall, yn ei farn ef, yn rhoi terfyn ar y ddadl fewnol yng Nghymru.




## Tegwch i Chapter

*Penderfynwyd yn Llys y goron Caerdydd ar Ionawr y 12Fed y gellir, wedi'r cwbl, dangos ffilmiau hwyr yn CHAPTER, Canolfan y Celfyddydau yma'ng Nghaerdydd*

*Ataliwyd CHAPTER rhag dangos y ffilmiau hwyr ym mis Mawrth y llynedd oherwydd (a) fod y Ganolfan wedi bod yn eu dangos yn anghyfreithlon am 6 mlynedd (b) mae'n bosib fod y ffilmiau'n achosi trafferth ac (c) nid oedd galw am y ffilmiau.*

*Dywedodd y Barnwr John Rutter fod y cyhuddiadau hyn yn gwbl ddiffygiol a barnodd bod Pwyllgor Trwyddedau Caerdydd wedi bod yn hollol anheg â CHAPTER.*

*Mae'r Ganolfan eisoes wedi ail-ddechrau dangos ffilmiau hwyr.*

## Cyngerdd MAWREDDOG

**Y mae nifer o sêr byd yr opera a'r theatr wedi rhoi eu cefnogaeth i'r Ymgyrch dros Gymru bellach, ac mae rhai ohonynt yn gwneud hynny mewn ffordd ymarferol dros ben, drwy roi eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim i'r ymgyrch.**

Mewn cyngerdd operatig yn Y Lido, Aberafan nos Sul, Chwefror 25ain, bydd cyfle i glywed Syr Geraint Evans, Stuart Burrows, Elizabeth Vaughan, Delme Bryn Jones, Ann Edwards, a Ryland Davies yn perfformio gyda'r Gerddorfa Gyngerdd Gymreig o dan arweiniad Owain Arwel Hughes, ynghyd â'r actorion Philip Madoc, Ruth Madoc a Ray Smith. Gwych o beth yw gweld rhai o ddoniau mwyaf llwyfannau operatig y byd yn torchi llewys i gefnogi'r ymgyrch dros Ddatganoli fel hyn — yn sicr, mae gwledd o'n blaenau yn Aberafan ar y pumed ar hugain.

Bydd tocynnau (pris £5, £4 neu £3 yr un) ar werth cyn hir; am ragor o fanylion, cysyllter â Raymond Edwards, Ymgyrch Cymru dros y Cynulliad, 90 Stryd Neville, Caerdydd.

## Drama - am ddim!

**Ar nos Fercher, Chwefror 14eg am 7.30p.m. bydd myfyrwyr y cwrs blwyddyn, Tystysgrif Uwch, Coleg Cerdd a Drama Cymru yn perfformio "OLD TIMES" cyfieithiad o ddrama gan Harold Pinter. Dyma'r tro cyntaf i'r ddrama yma gael ei pherfformio yng Nghaerdydd. Croeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb i weld y perfformiad. Mynediad — yn rhad ac am ddim.**

**Drwg gennym glywed fod rhaglenni Gaeaf y cymdeithasau canlynol heb ddod o'r wasg mewn pryd: Minny Street, Tabernacl, Ebeneser, Y Cymmrodorion, Clwb Llenyddol. Edrychwn ymlaen at glywed gennych chi'r tro nesa.**

**Mallt**

# Y CALENDR

**IONAWR**

20 8.00p.m. Theatr Sherman. Cyfarfod Cyffredinol Cyfeillion Theatr Gymraeg.

26 (Gwener), 7.30p.m. Y Gymdeithas, Heol y Crwys. 'Dawn Ymadrodd' gan Mary Wiliam, Sain Ffagan.

**CHWEFROR**

6 (Mawrth) Merched y Wawr. Canolfan yr Urdd. Noson o adloniant gan fyfyrwyr Coleg Cerdd a Drama Cymru.

9 (Gwener) 7.30p.m. Heol y Crwys. Y Gymdeithas. Gareth Lloyd Williams yn cyflwyno "C(Her)dd Nodiant".

**MAWRTH**

2 (Gwener) Heol y Crwys. Dathlu Gŵyl Ddewi; Gŵr Gwadd: Ei Anrhydedd y Barnwr Dewi Watkin Powell.

24 (Sadwrn) Neuadd y Ddinas. Cyngerdd gan Gôr Dowlais. Elw at Ysgol Feithrin y Waun.

**MAI**

2 (Gwener) Ysgol Feithrin y Waun. Noson gymdeithasol yn Nhŷ Maeth.

**Bydd y RHIFYN NESA yn ymddangos ar y 9 FED O CHWEFROR. Deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn IONAWR 30, fan bella, os gwelwch yn dda. Danfoner ar - Y Golygydd, 121, Heol Connaught, Parc y Rhâth, Caerdydd**




**Nia Waddington, cyflwynydd y gyfres**

Ym mha ffordd y mae artistiaid wedi dehongli crefydd dros y canrifoedd? A phaham y darlunir y nefoedd yn ddieithriad fel mangre sy'n llawn o angylion yn tynnu tannau telynau euraidd?

Yn y gyfres grefyddol saith rhan

**TESTAMENT YR ARTIST**

a welir ar HTV Cymru bob nos Sul am 5.30

byddwn yn edrych ar ymateb yr artistiaid, penseiri a'r cerflunwyr i wirioneddau crefyddol dros y canrifoedd

Cynhyrchydd Gwyn Erfyl

HTV CYMRU WALES


# APÊL

**GEIRIADUR YR ACADEMI: APÊL**

Ar ôl tair blynedd o waith dan nawdd Cyngor Celfyddydau Cymru, y mae Geiriadur Saesneg-Cymraeg yr Academi yn dynesu at ei hanner. Geiriadur ar gyfer cyfieithwyr o bob math yw hwn — yn weinyddwyr, yn ddarlledwyr, yn dechnegwyr, yn arbenigwyr, yn gyfieithwyr llenyddol ac yn anad neb, ar gyfer dysgwyr. Bwriedir iddo felly fod yn gynhwysfawr iawn; bydd yn cynnwys, nid geiriau unigol yn unig, ond hefyd ymadroddion, cymariaethau, diarhebion, phriod-ddulliau. O ran y Saesneg, nid oes diffyg deunydd ac ar gyfer pob eitem Saesneg hoffwn allu dangos neu gynnig rhywbeth cyfatebol yn Gymraeg, a dangos y cyfoeth sydd ar gael yng ngeirfa'r iaith.

Os oes gennych gasgliad o eiriau a phriod-ddulliau eich ardal, neu gasgliad o enwau blodau, pysgod, adar, cregin, ffyngoedd neu gasgliad o dermau technegol o unrhyw fath, ni waeth pa mor fychan, yna byddwn yn hynod falch o gael ei weld. Byddem yn dychwelyd unrhyw gasgliad o'r fath ac yn talu am ei gludiad atom, ar ôl ei ddefnyddio. Byddai'n gymorth mawr imi, pe gellid nodi ffurf luosog pob enw, a'i genedl; pe gellid ei gynnwys mewn brawddeg, i ddangos sut y defnyddir ef; pe gellid diffinio ystyr geiriau a phriod-ddulliau trwy arall-eirio yn Gymraeg neu yn Saesneg; pe gellid nodi ym mha ardal y digwydd, a pha mor gyffredin yw. Y mae gennym gasgliad helaeth o ddeunydd o Wynedd ac o Ddyfed, mewn ymateb i apêl a wneuthpwyd ar gychwyn y gwaith, ond hoffwn i'r Geiriadur arddangos cyfoeth *pob* rhan o Gymru: taer erfyniaf ar Gymry Powys, Clwyd, Gwent a Morgannwg i roi pin ar bapur. Dyma waith hefyd y dylai cylchoedd llenyddol ledled Cymru ymgymryd ag ef dros y Gaeaf: gallai pob aelod gyfrannu rhywbeth, a gallai'r ysgrifennydd ddanfon y cyfan ymlaen ataf. A fu perthynas i chwi yn cystadlu mewn eisteddfod ar draethawd ar "Gasgliad o werin-eiriau man-a-man" neu "Len Gwerin man-a-man", ac a yw ei draethawd yn casglu llwch yn rhywle? Yn hytrach, danfonwch ef ataf i. Pan gyhoeddir y geiriadur, bydd yn rhy hwyr bryd hynny i ddannod unrhyw fylchau imi; a chwithau heb fynd i'r drafferth i ddanfon eich gwybodaeth ataf. Dyna'ch cyfle i gyfrannu at y gwaith.

**BRUCE GRIFFITHS, Golygydd.**

# Colofn Hysbysebion Personol

YN EISIAU — Merch i rannu fflat — 47 Ffordd Llandaf. Ystafell wely i'w hunan. Ffoniwch 587902 rhwng 5 a 7 o'r gloch.

YN EISIAU — Dwy ferch i rannu ystafell mewn tŷ gyda dwy arall. Ardal Whitchurch Road. Ffoniwch Caerdydd 29297 ar ôl 5.00 o'r gloch.

PROFEDIGAETH — Estynnwn ein cydymdeimlad i Bethan Roberts (Radyr) ar ôl iddi golli ei mam yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU! Dim ond Pwt bach yw hwn i longyfarch Delyth (Thomas) a Pwt (Pêl-droed) ar eu dyweddïad ychydig cyn y Nadolig. Dymuniadau gorau oddiwrth y gol. a'r cartwnydd.

**YN EISIAU —**
SYCHWR DILLAD MEWN cyflwr da. Cysyllter â'r gol.

**COFIWCH —**
roi sws (X) i mi Dydd Gŵyl Dewi — DEWI SANT.

**S.A.E. —**
Pob dymuniad da ar y fenter newydd!

**HYSBYSEBU**

**Am fanylion ynglŷn â'n telerau hysbysebu, cysyllter â:**

**Cyhoeddwyr Cleglen Cyf, 43 Heol Eglwys Gadeiriol Isaf, Caerdydd CF1 8LW. Ffôn: 0222-396262**

(Danfoner pob deunydd hysbysebu i'r cyfeiriad uchod, os gwelwch yn dda.)


**GWYLIAU YN SIR BENFRO**

Bwthyn mewn llecyn hyfryd uwchben Trefdraeth. Tair ystafell wely. Gwres canolog. Simne fawr i dân coed. Pob cyfleustra yn y gegin braf. Ffoniwch Caerdydd 754559.

OS BYDDWCH YN PRYNU NEU'N GWERTHU, MAE'N TALU FFORDD I YMGYNGHORI Â'R ARBENIGWYR.

antiques UNLIMITED

PRYNIR EITEMAU SENGL NEU GYNNWYS TAI YN EU CRYNSWTH

7 Heol Penllin Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Tel: 62748 neu 616415.

# Newyddion y Bwrdd Datblygu

O'r diwedd! Grantiau ar gyfer cyflogwyr nad ydynt yn wneuthurwyr—ffermydd, siopau, gwestai, swyddfeydd, cwmniau trafnidiaeth ac hyfforddiant

*Mae'r Bwrdd yn falch i gyhoeddi bod cwmniau bychain nad ydynt yn wneuthurwyr, fel ffermydd a siopau, yn gymwys'nawr am grantiau wythnosol (Cymorthdal Cyflogi cwmniau bychain o £20 ar gyfer pcb gweithiwr ychwanegol a gyflogwyd ar ôl 1 Awst 1978). Mae'r grant am 26 wythnos, sy'n golygu £520 tuag at gostau llafur. Gallwch geisio am y grant yn y Flwyddyn Newydd. I fod yn y barod am y cynllun newydd hwn, ysgrifennwch am fanylion 'nawr.

---

£20 yr Wythnos o grant i gynhyrchwyr i barhau hyd at 1980

*Mae grantiau wythnosol o £20 ar gyfer pob gweithiwr ychwanegol a gyflogwyd ar ôl canol mis Mawrth 1978 ar gael 'nawr i gwmniau cynhyrchu yng Nghymru. Mae'r grant am 26 wythnos, sy'n golygu £520 tuag at gostau llafur. Bydd y grantiau hyn ar gael hyd at 1980.

Os yw eich cwmni chwi wedi ychwanegu at ei lafurlu ers mis Mawrth neu os yw'n newydd i'r ardal, neu'n ystyried cyflogi rhagor o weithwyr, efallai y gall dderbyn grant wythnosol o £20.

Argymhellir pob cwmni i ymuno â'r cynllun 'nawr, hyd yn oed os nad ydynt yn bwriadu ehangu eu llafurlu yn y dyfodol agos. Am wybodaeth ychwanegol am y grant hwn, a sut i ymuno â'r cynllun, ysgrifennwch am fanylion.

A oes arnoch angen arian i am ehangu eich Cwmni?.

*Mae gan y Bwrdd Datblygu arian i'w menthyg i gwmniau cynhyrchu newydd neu sefydliedig yng Nghanolbarth Cymru. Yn dibynnu ar rai amodau, gall y Bwrdd yn aml roi benthyciadau pan nad yw mathau eraill o gymorth ariannol ar gael. Cysylltwch â ni 'nawr am ein cyhoeddiad "Cymorth Ariannol ar gyfer Cwmniau yng Nghanolbarth Cymru". Efallai y gallwn eich helpu!


---

Cyweithiau Cymdeithasol hwn a Chymunedol - cymorth ar gael!

*Dyma'r amser i drefnu eich cyweithau cymdeithasol a chymunedol newydd. Efallai y gall Bwrdd Datblygu Cymru Wledig eich cynorthwyo gyd grantiau tuag at gost unrhyw gynllun 'rydych yn ei ystyried. Y mae i fyny i chi i ddod â'ch syniadau i ni. Rhoddir ystyriaeth i unrhyw gynigion, a rhoddwyd grantiau yn y gorffennol i nifer o wahanol gyweithiau, yn cynnwys prynu hawliau pysgota, cyfleusterau chwaraeon ac offerynnau cerddorol, ' Rydym ar hyn o bryd yn ystyried syniadau ar gyfer rhaglen 1979.

A ydych yn edrych am gymorth i redeg neu sefydlu eich busnes?

*Cysylltwch â Gwasanaeth Ymgynghorol Busnes y Bwrdd sy'n cynnig cymorth ar sail gyfrinachol a phersonol, ac sy'n cynnwys problemau technegol, cynhyrchu, ariannol a marchnata. Y cam cyntaf yw trefnu cyfweliad gydag aelod o Adran Farchnata'r Bwrdd am drafodaeth gyffredinol. Ni chodir tâl am y cyfweliad hwm. Wedyn fe fydd swyddogion y Bwrdd yn dangos i chwi sut y gallwch gael cyngor. Mae'n debyg y bydd y cyngor hwn yn golygu rhywfaint o dâl ymhellach ymlaen.




**Bwrdd Datblygu**
Cymru Wledig

# Clwb i'r Dysgwyr?

**Y mae nifer o ddosbarthiadau nos i ddysgu Cymraeg yng Nghaerdydd wedi disgyn eleni. 33 yn unig sy'n awr, llai nag ym 1972.**

**Ond problem fwy — ym meddwl rhai athrawon — yw'r angen am rywbeth i ddilyn y cyrsiau. Y mae'r galw am glwb (trwyddedig) yn codi eto yn y ddinas.**

Cyhoeddir nifer y dosbarthiadau nos gan Gyd-Bwyllgor Addysg Cymru yn ei llyfryn blynyddol, "Cyfarwyddiadur y Dysgwyr". Yr unig ddosbarthiadau nad ydynt yn y llyfryn yw'r dosbarthiadau a drefnir gan yr Urdd yng Nghanolfan Heol Conwy.

Trwy ddefnyddio'r llyfr, darganfu'r *Western Mail* mai Cymraeg yw'r iaith mwyaf poblogaidd drwy Gymru gyfan. Digwydd hyn hefyd yn Ne Morgannwg: eleni, y mae 49 dosbarth Cymraeg yn y sir, a 48 yn Ffrangeg.

Ond darganfu adroddiad y *Western Mail*, gan Clive Betts, er fod nifer y dosbarthiadau Cymraeg wedi cynyddu yn sylweddol drwy Gymru benbaladr, o 300 ym 1972, i 375 ym 1974, 440 ym 1976, a 495 eleni, nid ydyw'r un peth wedi digwydd yng Nghaerdydd. Dros yr un cyfnod newid bach a fu yn nifer y canolfannau gyda dosbarthiadau Cymraeg: 14 ym 1972, a 13 eleni.

Nifer y dosbarthiadau yng Nghaerdydd oedd 1972 — 34; 1974 — 38; 1976 — 40; 1978/9 — 33.

Ond yr oedd un peth mawr wedi digwydd er 1972, yr Wlpanim; nid oedd un ym 1972, ond y mae chwech yn y ddinas eleni yn ôl y cyfarwyddiadur.

Y mae newid arall: mae rhai o'r athrawon wedi dechrau gofyn beth sy'n digwydd i'r disgyblion ar ôl iddynt adael eu dosbarthiadau nos.

Yn *Education for Development*, cylchgrawn Adran Addysg, Coleg y Brifysgol, Caerdydd, y mae Mr Maxwell Evans, Penarth, Cynghorwr Ieithoedd, Cyngor Sir Canol Morgannwg, yn trafod y broblem.

Dywedodd, "Mae arnaf ofn nad oes cyswllt rhwng llawer o gyn-ddisgyblion â'r iaith ar ôl diwedd y dosbarth. Mae llawer ohonynt wedi dysgu siarad yr iaith yn eithaf rhugl. A oes raid iddynt ddod am byth i ddosbarthiadau i siarad Cymraeg mewn sefyllfa artiffisial?

"Neu, a ydynt yn dweud rhywbryd, "Rwyf wedi gorffen fel dysgwr; gallaf fynd allan i'r gymuned i ddefnyddio fy Nghymraeg.

"Ond, 'rwyf yn adnabod llawer sydd wedi ceisio gwneud hyn, a maent wedi darganfod nad oes cyfle iddynt ddefnyddio'u Cymraeg."

Dywedodd nad yw'r ateb yn hawdd. Y mae angen am gymdeithasau Cymraeg o bob math. Nid yw 'Cymdeithas Gymraeg' sy'n cwrdd bob mis yn ddigon.

"Y mae angen rhywbeth llawer mwy," dywedodd. "Ond, nid wyf yn meddwl ein bod yn wynebu'r broblem ar hyn o bryd."

Galwodd am gyngor Cymraeg — fel yr un ym Mhenarth — i helpu drefnu rhywbeth bob nos.

Ychwanegodd am glybiau trwyddedig Cymraeg, "Hwn fyddai'r cam gorau, efallai — adeilad parhaol gyda dartiau, cyngherddau a thrafodaethau, bob nos — yn Gymraeg. Pe byddai unrhywun am ddod o hyd i unrhywbeth yn Gymraeg, byddai'n gwybod lle i fynd."

# O Rydfelen i Girton

**Teimlad rhyfedd yw bod yng Nghaerdydd unwaith eto ar ôl fy nhymor cyntaf yng ngholeg Girton, Caergrawnt — mae hi fel bod fel ynys fach yng nghanol bywyd coleg ac argraffiadau newydd. Ysgytwad ar y gorau yw'r tymor cyntaf oddi cartref i unrhyw fyfyriwr, ond mae'n anodd dychmygu dau fyd mor wahanol eu hawyrgylch a bywiogrwydd cynnes Rhydfelen a naws academaidd, osgeiddig Girton. Ond cyfarwyddo y bu'n rhaid â'r coridorau hirion, tywyll, â'r iaith estron, ac â'r ymdeimlad o fod yn ran o draddodiad cenedlaethau o ddeallusion wrth frysio i'r neuadd mewn gŵn laes ddu.**

Sioc oedd sylweddoli bod Girton bron i dair milltir y tu allan i'r dref, ac y byddai'n rhaid i mi ddod o hyd i feic yn reit sydyn, er mwyn cael symud o le i le. A dyna pryd y daeth "Catrin" i'm bywyd — hen feic du, llawn cymeriad, basged wiail ar y blaen, a rhwd yn rhemp ar ei gorff. Y mae'r bartneriaeth rhwng y lodes hon a minnau yn ymylu at fod yn berffaith erbyn hyn, gyda'r naill ohonom yn deall gwendidau'r llall i'r dim, ac wedi gwynebu'r Huntington Road hir mewn eira, glaw ac oerwynt.

Mae'n rhaid i mi gyfaddef 'nawr fy mod i adref, er mor hoff yr wyf o Gaerdydd, bod arnaf hiraeth am dref Caergrawnt, hiraeth am yr hen golegau urddasol, y lonnydd culion yn llawn siopau diddorol, am olygfa Capel Coleg y Brenin a swn cloch eglwys yn atsain drwy'r strydoedd wrth iddi nosi. Ond, 'ta waeth am allanolion y dref, y mae naws cymdeithas y brifysgol wedi gwneud mwy o argraff arnaf; es yno yn boenus o ddiymhongar, yn disgwyl cyfarfod a Saeson ffroenuchel, aristocrataidd a deallus iawn. Rhyddhad mawr oedd cyfarfod a phobl a oedd yr un mor nerfus a finne, a darganfod awyrgylch mor gyfeillgar ac mor groesawgar. Rhaid cyfaddef fy mod wedi ei chael yn anodd ar adegau i siarad Saesneg drwy'r dydd a phob dydd, wedi arfer siarad dim ond Cymraeg adref. Daeth cyfarfodydd Cymdeithas y Mabinogi yn hafan o Gymreictod, yn fodd gwerthfawr o gadw cysylltiad a'm gwreiddiau a'm cenedl, sydd yn gymaint o ran o'm cymeriad.

Mae'r argraffiadau cyntaf o hyd yn bentwr cymysglyd yn fy mhen, ac anodd yw meddwl am brofiadau'r deufis diwethaf yma yn wrthrychol. Ond, mae'n siwr mai arwydd da yw'r ffaith fy mod yn edrych ymlaen gymaint at fy ail dymor......

GWYNETH LEWIS

WELLA
HAIR COSMETICS

Dymuna Wella Flwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr y Dinesydd.

Cofiwch am ein cynnyrch:
Koleston Crisan
Accord Conditioner
Optaform
Color Confidence.

**COFIWCH!**

**Noson i'r Santes Dwynwen, Nos Wener, Ionawr 26 yn Ysgol Gyfun Radyr, 8.00 o'r gloch. Trefnir gan gylch Meithrin Gymraeg Radyr a Phentrepoeth. Noson o hwyl!! Tocynnau gan Adrian Huws (Ffôn: 843264). £2 yr un, yn cynnwys bwyd.**

**TRO NESA**

**Y dinasyddion sy'n cysgu mas.**

**Cyngor gan banel o arbenigwyr.**

**Spectol Siân.**

**A mwy!**

# Ysgol Feithrin Llysfaen

**Nos Sul, Rhagfyr 17, trefnwyd noson o garolau a cherddoriaeth y Nadolig yn Theatr Pembroke Terrace a chafodd y gynulleidfa, o ryw ddau gant, wledd i'w chofio. Arweinydd y cyfarfod oedd Robin Jones a gyflwynodd yr artistiaid canlynol — Yolande Jones, Shan Emlyn, Eric Roberts, Iona Jones a Pharti'r Ddinas (a hyfforddwyd gan Lisa Erfyl). Y delynores oedd Mona Meirion a'r cyfeilydd Janice Ball. Cafodd y gynulleidfa gyfle i uno yn y carolau dan arweiniad Alun Guy. Yn yr egwyl roedd hi'n braf cael cymdeithasu uwchben coffi a lluniaeth tymhorol. Rhaid diolch i Tegwen Evans am drefnu noson lwyddianus iawn.**





## Ffenestr-siop
## Y SIOP I CHI...

Pan fyddwch chi'n ystyried gwelliannau i'r cartref, ac yn wynebu'r broblem o gael ffenestr neu ddrws.

Beth am... ddod i ymweld â'r arbenigwyr yng Nghanolfan Ffenestri De Cymru a gweld bron 100 mlynedd o brofiad o wneuthur ffenestri ar waith?

...weld y detholiad ehangaf posib o ffenestri a drysau patio o ansawdd dda, a'u gweld yn cael eu gwneud yn y fan a'r lle?

...weld sut y gellir arbed ar filiau gwresogi drwy dorri i lawr ar y gwres a gollir a chynyddu gwerth eich tŷ ar yr un pryd?

...dderbyn cyngor ar osod cyfarpar i mewn eich hunan — gellwch arbed 50% arall felly.

...edrych ar ein telerau hûr-bwrcas?

**Yn yr amserau caled hyn, synhwyrol yw edrych CYN prynu.**

## CANOLFAN FFENESTRI DE CYMRU

Heol Curran, Caerdydd. tel. 388555
Llun-Gwen 9a.m. hyd 5p.m.,
Sad 9a.m. hyd hanner dydd.
Croeso mawr i'r Cyhoedd a'r Fasnach.

JONWINDOWS

*— yr enw y gellwch ymddiried ynddo* JWd

(Aelod o Grŵp John Williams o Gaerdydd Cyf.)


# Taw pia hi!

**Fe'm magwyd i i gredu waeth beth fo'r amgylchiadau mai "taw pia hi" sydd orau. Os byddai yna helynt yn ein tŷ ni y rheswm gan amla oedd bod fy nhad wedi anufuddhau i'r ddelfryd hon, ac wedi siarad yn fyrbwyll a thynnu rhywun neu rywrai yn 'i ben.**

Mae'n rhaid bod "taw pia hi" yn ddofn yn fy nghyfansoddiad gan mai agwedd ar yr un peth fyddai'n gyfrifol fy mod yn dweud un lythyren wrth fy ffrind a fyddai'n cynhyrfu ac ymfflamychu ar ychydig. Y lythyren oedd "G" a'r gair — Goddefgarwch.

Yn ddiweddar rwyf wedi bod yn amau y "taw pia hi" 'ma. Mae fy ngoddefgarwch yn teneuo ac yn ôl y natur ddynol caf fy hun yn cyfiawnhau'r newid yma yn f'agwedd — yn gam neu'n gymwys!

Yn y Gymru sydd ohoni thal hi ddim i rywun 'i "thaw pia hi". Mae yma gymaint o amrywiaeth mewn safbwyntiau tuag at yr Iaith, Addysg a Chrefydd. Ym myd crefydd fe fynychwn ein capeli — pawb a'i oleuni neu ei dywyllwch ei hun. Gwrandawn heb godi bys i gytuno nac anghytuno âr hyn a glywn. Petaem yn uwch ein cloch yn mynegi ein amheuon efallai na fyddai'r fath drai ar grefydd.

"Taw pia hi" a "Goddefgarwch" — o anufuddhau i'r cynta fe ddiflanna'r ail, a hawdd yw bod yn hunangyfiawn a bwrw lach ar y rhai sy'n credu'n wahanol i ni.

Byd Addysg a'r Iaith — dyna faes dyrus goblennig! O siarad a nifer o bobol synhwyrwn bod aniddigrwydd a phryder ynglŷn â'r iaith ac addysg. Anfonwn ein plant yn ffyddiog i ysgolion i gael addysg ddwyieithog. Ein pennaf nod wrth wneud hyn yw ein hawydd i'r plant gael y cyfle i ddatblygu ac aeddfedu yn ôl eu doniau a'u tueddiadau. Digwyddwn gredu hefyd ei bod hi'n bwysig i'n plant gael eu haddysg yn eu mamiaith. Dyna nod llawer ohonom — ac nid eu hanfon i ysgolion dwyieithog yn un swydd i achub yr iaith Gymraeg.

Trist mi greda i yw'r syniad sydd ar gynydd bod yn rhaid i blant ysgolion dwyieithog fynd yn eu blaenau i goleg yng Nghymru, a bod y rhai sy'n mynd y tu allan i Gymru yn "troi cefn ar Gymru" ac yn golledig. Pan fo rhai disgyblion yn llwyddo i gael eu derbyn i Rydychen neu Gaergrawnt fe'i gwawdir gan garfan.

Nid difrio colegau Cymru yw fy mwriad, ond pan fo disgybl yn dangos disgleirdeb neu duedd arbennig i'm tyb i rhesymol yw ei gefnogi i fynychu cwrs a choleg sy'n fwya pwrthnasol i'w ofynion — boed hwnnw yng Nghymru, Lloegr neu Lanrwst!

Oni chaiff ein pobol ifanc lonydd i ddatblygu'n ddilyffethair, fe chwerwa eu hagwedd tuag at Gymru a Chymreictod. O gael rhyddid i ddilyn eu greddf rwy'n ffyddiog y bydd y to yma o ran eu hargyhoeddiadau hwy eu hunain yn ddigon cadarn eu sêl dros Gymru a'r iaith — ac yn datblygu i allu cyfrannu'n helaeth tuag at fywyd Cymru'r dyfodol. Mae'n sarhad ar ein pobol ifanc, sydd wedi derbyn addysg ddwyieithog o dair i ddeunaw oed, i awgrymu bod cwrs coleg y tu allan i Gymru yn mynd i olygu na fydd ganddynt ran ym mywyd Cymru'r dyfodol.

Wel dyna fo — "taw pia hi" neu beidio — wn i ddim. Ond dyma fi wedi arllwys ychydig o deimladau sydd wedi bod yn fy nghorddi yn ddiweddar — efallai 'i bod hi'n bryd i fy ffrind weiddi y llythyren "G" yn fy nghlust i. Tybed?!

SHAN EMLYN

# Cysylltu â'r DINESYDD?

**Am roi pwt o newyddion - ar unwaith - i'ch papur lleol.**

**Ffoniwch un o'r canlynol yn ddi-oed:-**
**Shân Emlyn - 751469**
**Gwyn Lewis Davies - 756882**
**E. Gunston Jones - 499469.**

**OS OES DYDDIAD GENNYCH CHI I'R CALENDAR CANOLOG FFONIWCH MALLT ANDERSON — CAERDYDD 753695.**

# Y Bleidlais Bwysica

**Ar laf Mawrth, 1979, fe fydd Cymry yn pleidleisio ar y datblygiad pwysicaf ym mywyd gwleidyddol cyfoes Cymru. Bydd pleidlais fawr dros Gymru yn y refferendwm yn golygu y bydd y Cynulliad Cymreig yn cael ei sefydlu fel y cynigwyd gan y Llywodraeth yn Neddf Cymru a dderbyniodd sêl bendith y Frenhines.**

## Paham mae angen Cynulliad?

Fe wna'r Senedd yn San Steffan ddeddfau ar gyfer Prydain Fawr i gyd ac yn Lloegr, caiff y deddfau hyn eu gweithredu gan wahanol adrannau o'r llywodraeth, pob un gyda'i weinidog llywodraeth eu hun. Ond yng Nghymru mae'r rhan fwyaf o'r adrannau hyn bellach wedi'u gwasgu oddi fewn y Swyddfa Gymreig. Golyga hyn bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn awr yn Weinidog Iechyd, Addysg, Amaethyddiaeth, yn ogystal ag yn Weinidog Ffyrdd, Tai a llawer mwy.

I fod yn ymarferol, ni all un person yn unig wneud yr holl swyddi hyn, ac mae llawer o'r penderfyniadau holl-bwysig sy'n rheoli ein bywydau yn cael eu gwneud gan weision sifil yn y Swyddfa Gymreig. Bydd y Cynulliad Cymreig yn cymryd y cyfrifoldeb dros y rhan yma o lywodraeth sydd eisoes mewn bodolaeth. Golygai hyn y bydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol fwy o amser i roi i'w ddyletswyddau eraill, ac i gynrychioli Cymru yn y Cabinet.

Bydd cannoedd o orchymynion a rheolau sy'n effeithio ein bywydau bob dydd sy'n cael ei derbyn gan y Senedd yn ddi-wrthwynebiad ar hyn o bryd yn cael eu trin a'u trafod gan y Cynulliad: apwyntiadau i'r nifer fawr o gyrff cyhoeddus yng Nghymru megis yr Awdurdod Datblygu, yr Awdurdodau Dwr a Iechyd ac eraill. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn parhau i fod yn aelod llawn o'r Cabinet, ac fe fydd ei swyddogaeth yn cael ei chryfhau gan lais democrataidd y Cynulliad.

Bydd y Cynulliad Cymreig yn gallu mynegi barn ym Mrwsel, ac hefyd yng nghynghorau'r Farchnad Gyffredin.

## Ym Mha Ffordd Fydd y Cynulliad yn trin Diweithdra?

Gwelsom ddiweithdra yng Nghymru yn uwch na 100,000 — am y tro cyntaf ers 40 mlynedd. Mae arnom angen mwy o swyddi, ond mae swyddi yn brin, ac ni fedrwn bellach ddisgwyl cymorth gan rannau eraill o Brydain, sydd yn awr yn dioddef eu problemau diweithdra eu hunain. Fe sefydlodd y Llywodraeth Awdurdod Datblygu Cymru a'r Bwrdd Datblygu Cymru Wledig er mwyn denu diwydiant newydd i Gymru, ac i weithredu'r rhain, y mae arnom angen y Cynulliad.

Fe fydd y Cynulliad Cymreig — fel sefydliad cenedlaethol — yn rhoi i'r Awdurdod Datblygu y dimensiwn democrataidd y mae ei angen i gynllunio datblygu economaidd. Drwy greu awyrgylch o hyder a chyfarwyddyd fe fydd y Cynulliad yn lwyfan pwysig i ddenu cynlluniau newydd a swyddi i Gymru.

Mae ASau o'r rhanbarthau Seisnig yn edrych ar y Cynulliad Cymreig gydag eiddigedd, a chytunent y bydd yn rhoi cyfle ardderchog i Gymru yn y frwydr i greu swyddi newydd — ac y maent yn iawn!

## Y Cynulliad — Mwy o Fiwrocratiaeth?

Y ddadl fwyaf boblogaidd ymysg gwrthwynebwyr y Cynulliad yw y golygai mwy o lywodraeth. Ond, fel rydym wedi gweld — ni fydd yn creu lefel arall o lywodraeth — mae'r lefel hon o lywodraeth eisoes mewn bodolaeth yn ffurf y gweision sifil a wasanaetha'r Swyddfa Gymreig ac yn y cyrff enwebedig sy'n rheoli Cymru. Fe fydd y Cynulliad yn trosglwyddo'r rheolaeth yn ôl i ni'r Cymry — ac o'r diwedd fe fydd y sefydliadau hyn sy'n gwario £1,000 miliwn o'n harian ni bob blwyddyn yn atebol i Gynulliad etholedig democrataidd.

## A fydd y Gost yn Ormod?

Gellir ateb hwn drwy ofyn cwestiwn arall: Beth yw cost democratiaeth? Os rywbeth, fe fydd y Cynulliad yn llai na'r gost o sefydlu'r maes parcio newydd i ASau Tŷ'r Cyffredin, ac fe fydd y gost o redeg y Cynulliad yn hanner y gost o fandiau pres y Fyddin Brydeinig! Fe fydd y gost yn llai na ½c y person yr wythnos.

Un o ddyletswyddau cyntaf y Cynulliad fydd i adolygu llywodraeth leol er mwyn torri i lawr ar wastraff a gwariant diangen. Meddyliwch faint y gallwn arbed yn y maes hwn!

Er mwyn ein dyfodol ein hunain ym Mhrydain yn ogystal ac yng Nghymru, ni allwn fforddio peidio â manteisio ar y cyfle hwn. Rhaid inni bleidleisio DROS GYMRU ar Ddydd Gŵyl Dewi.

**BRIAN REES**

HTV CYMRU WALES

**TEIPYDD/LLAWFER**

Croesawir ceisiadau am swydd teipydd/llawfer yn yr Adran Gysylltiadau Gyhoeddus yng Nghaerdydd. Dylai'r ymgeiswyr fod yn rhugl yn y Gymraeg. Y mae'r gwaith yn amrywiol a diddorol ac mae gofyn am allu teipio a llawfer o'r radd flaenaf. Dylai'r ymgeisydd llwyddianus fod â phersonoliaeth ddymunol llawn bywyd.

Dylai'r ymgeiswyr (mab neu ferch) yrru am ffurflen gais, yn cynnwys amlen wedi ei chyfeirio (nid oes angen stamp) at:-

**Y Swyddog Staffio,
HTV Cymru/Wales,
Y Ganolfan Deledu,
Caerdydd CF1 9XL**

Llongyfarchiadau i'r bobl ifanc canlynol o Gaerdydd ar gael eu hethol i Gwmni Drama Cenedlaethol yr Urdd:-

Huw Williams (Aelwyd yr Urdd)
Rhiannon Rees (Llanhari)

Bethan Williams, Rhys Powys, Simon Fisher, Seth Edwards (Barri), Alun ap Brinli, Rhiannon Lewis, Dilwyn Young Jones, Alun Parry, Rhys Harris, Carwyn Thomas, Pauline Williams, Eleri Evans, Sioned Wiliam, Nest Llwyd, Eluned Harries, Catrin Haf Williams, Anna Lindsey, Elisabeth Scofield, Mererid Davies, Mari Emlyn, Elen ap Robert, Angharad Mair Davies.

Aelodau o'r grwp cerddorol fydd — Dafydd Saer, Gwyn Williams a Rhys Ifans.

**COLEG LLANYMDDYFRI**

**Ysgol C.P.A.**

**Bechgyn o 11 - 18. Merched ar ôl lefel 'O'**

Cynhelir **ARHOLIADAU YSGOLORIAETH A MYNEDIAD:**(IAU - dan 12 a HŶN - dan 14 ar Fedi'r laf 1979) yn y Coleg ar Fawrth y 6ed, 1979.

Cynhelir **ARHOLIADAU YSGOLORIAETH CHRISTOPHER BELL** ar gyfer y chweched dosbarth (merched a bechgyn) ar Ebrill y 23ain, 1979.

GELLIR CAEL YSGOLORIAETHAU AR GYFER POB LEFEL.
DYMA'R UNIG YSGOL BRESWYL YN Y BYD GYDA'R IAITH GYMRAEG YN RHAN O'R CWRS ADDYSG

*Mwy o fanylion, ynghŷd â ffurflenni cais oddi wrth:*

**Yr Ysgrifennydd
Coleg Llanymddyfri,
Llanymddyfri, Dyfed.
Ffôn (0550) 20315**

# Oedfaon mawr Minny St

**Bu cystadlu brwd a hapus yn Eisteddfod capel Minny St. ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 22ain, gyda'r plant lleiaf yn hawlio'r prynhawn a'r oedolion y nos. Arweiniodd Howard Goodfellow ac Alun Evans y cyfarfodydd yn feistrolgar a difyr, a barn pawb yn y festri llawn dop oedd na chawsent y fath hwyl ers tro. Mr John Ewart Jones oedd y beirniad cerdd - y gŵr mwyn, yn canmol ac awgrymu gwellhad mewn modd mor foneddigaidd, a'r Parchg. Ifor Rees a feirniadodd y llenyddiaeth, gan gloriannu'n fedrus a doniol tu hwnt. Yn sicr, mae'r achlysur blynyddol hwn yn mynd o nerth i nerth.**

Yna, ar nos Wener, Rhagfyr 15ed, daeth deugain o wŷr ynghyd i Swper — yn aelodau a chyn-aelodau o ddosbarth Ysgol Sul Mr D. Llewelyn Walters — i dalu teyrnged iddo am ei ffyddlondeb a'i ysbrydoliaeth fel athro annwyl dros gyfnod di-fwlch o tua deugain mlynedd. Llywyddwyd y noson gan y gweinidog, Y Parchg. D.T. Evans, a mynegodd nifer eu gwerthfawrogiad a'u cariad at eu hathro ar goedd — Brychan Huws, Gwilym ap Robert, Alwyn Prosser ac Iwan Jones. Darllenwyd llythyrau oddi wrth y Parchedigion Vivian Jones, Alltwen, a Huw Ethall, Sgeti, a chlywyd lleisiau Bobi Jones a Tedi Millward, Aberystwyth, ar dâp. Yn ystod y noson cyflwynwyd cyfrol hardd i Mr Walters (a ymddeolodd fel Prifathro Ysgol Gynradd Rhiwbeina eleni). Trefnydd y cyfan oedd Neville Davies.

Amheuthun oedd gweld y capel yn llawn fore a nos Sul, Rhagfyr y 17eg, gyda bron cant o blant yn oedfa'r bore yn cyflwyno Drama'r Geni yn syml ond hynod effeithiol. Roedd ôl paratoad a hyfforddiant diflino gan yr Arolygwr, Gwyn Hughes Jones, a'i gyd- weithwyr ar berfformiad y plant. Yna, yn oedfa'r nos, dan arweiniad Alun Davies, cafwyd noson arbennig — Naw Llith a Charol — gyda'r darlleniadau o'r Ysgrythur a chaniadaeth côr y capel, Pedwarawd y Wenallt, côr y plant ac unigolion yn gwau yn anthem fendigedig o fawl i Eni Tywysog Hedd. Dwy oedfa i'w trysori.

HTV CYMRU WALES

**YSGRIFENYDDES/YSGRIFENNYDD**

Yn eisiau: ysgrifenyddes/ysgrifennydd yn Adran Rhaglenni Plant yng Nghaerdydd. Dylai'r ymgeisydd (mab neu ferch) fod wedi derbyn addysg gyffredinol dda a bod yn rhugl yn yr iaith Gymraeg (llafar ac ysgrifenedig). Y cymwysterau gorau fel ysgrifenyddes/ysgrifennydd yn angenrheidiol, a'r gallu i weithio ar ei phen/ar ei ben ei hun/yn ofynnol.

**Cyflog £3100**
**Danfoner am ffurflen gais at:**

**Y Swyddog Staffio,**
**HTV Cymru,**
**Y Ganolfan Deledu**
**Caerdydd CF1 9XL**

# Ysgol Llanhari'n dathlu

**Dathlodd Ysgol Gyfun Llanhari Nadolig 1978 trwy gynnal dwy noson o raglen amrywiaethol ar y 18fed a'r 19eg o Ragfyr. Cafwyd neuadd lawn o rieni a chyfeillion ar y ddwy noson i fwynhau a gwerthfawrogi'r perfformiadau.**

Yn rhan gyntaf y rhaglen rhoddwyd gwisg Gymraeg ar graidd stori Dickens *A Christmas Carol*, ond heb geisio dilyn manylion y stori. Trwy gyfrwng deialog a miwsig a dawns, dangoswyd "Catwg y Cybydd" yn cael gweledigaethau ar ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol. Trefnwyd y perfformiad gyda chwaeth a graen, ac mae lle i longyfarch yr unigolion a'r partion a gymrodd ran, ynghyd â'u hyfforddwyr.

Yn ail hanner y noson, cafwyd raglen amrywiaethol o ddarlleniadau a chyflwyniadau llafar, gan unigolion a phartion, ac amrywiaeth o gerddoriaeth y Nadolig gan gôr a cherddorfa'r ysgol, a'r gynulleidfa yn mwynhau ymuno yn y carolau adnabyddus. Gwych o beth oedd gweld cerddorfa o dros drigain o offerynwyr ifainc, yn cynnwys amrywiol dannau, chwythbrennau, pres ac offerynnau taro. Noson o fwynhad a chalondid i holl garedigion yr ysgol.

**Carai Pwyllgor y Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol.**

# RECORDIAU

## HERGEST - AMSER CAU

**Gwell imi gyfaddef fod fy marn am y record hon wedi ei lliwio braidd gan adolygiad Geraint Lovegreen yn 'Sgrech', a ga i gyfeirio unrhywun sy'n awyddus i ddysgu am ganeuon y record at 'Sgrech' y mis hwn. Fe geisia i roi braslun o ddatblygiad cerddorol y grŵp.**

Credaf mai 'Gwenllian' yw uchelolau (highlight?) y record, yr unig gân a gyfansoddwyd gan y ddau aelod diweddaraf, Gareth a Rhys. Nhw yw rhythm section y grŵp, ac adlewyrchir hyn yn y gân gan fod iddi naws fwy 'curiadol' a llai breuddwydiol na gweddill y caneuon. Mae Rhys a Gareth wedi gwneud byd o wahaniaeth i'r grŵp achos mae eu cyd-chwarae'n dynnach nag o'r blaen a'u harmoniau 'hergestaidd' chwedl G. Lovegreen, yn fwy Americanaidd.

Mae'n ddiddorol hefyd i unrhywun sydd wedi bod yn sylwi ar Derec Brown, fod ei afael ar y gitar drydan yn well nag erioed, ac fe ddefnyddia ambell gord a riff go ffwnci yma a thraw, yn arddull Dafydd Pierce.

Mae rhai deallusion yn condemnio Hergest am eu defnydd o ddylanwadau Americanaidd, ond gan nad oes unrhyw ddylanwadau Gymreig gwerth son amdanynt i'w cael, chwarae teg i Hergest am ddefnyddio'u inishiatif a chael canlyniadau da yn y fargen. Prynwch y record hon ar bob cyfrif neu (ystrydeb y mis) gofynnwch i rywun roi hi ichi fel anrheg Basg.

## POTEL FACH O WIN — Traed Wadin (Sain)------------------ ------

**Dyma E.P. newydd sy'n arbrawf diddorol yng nghanu pop Cymru. Ni ryddhawyd record o ganu gwlad erioed o'r blaen yng Nghymru, er i Hogia Llandegai wneud gwaith arbrofol pwysig yn y maes. Dylan Jones a Neville yw'r ddau aelod yn Traed Wadin, a Dylan sy'n gwneud y canu mewn llais pendefigaidd. Caneuon melys yw'r bedair, i apelio at y canol oed yn hytrach na'r ifainc, ond serch hynny mae digon o fynd yn y caneuon, a gellir eu chwarae mewn disgo'n rhwydd.**

Sylwer ar enw'r grŵp — 'Traed Wadin' — mae chwarae ar eiriau cynnil iawn yma; welwch chi'r tebygrwydd rhwng 'Traed Wadin' a 'Gwin Cymun'? 'Gwin Cymun' — 'Potel fach o win', clyfar iawn ynte? Un o recordiau gorau'r flwyddyn, prynwch hi ar bob cyfrif.

*EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU. SWYDDOG CYLLID*

Mae ar Gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol eisiau SWYDDOG CYLLID i weithio yn Swyddfa Ganolog yr Eisteddfod yng Nghaerdydd.

Bydd y Swyddog hwm yn gyfrifol i'r Cyfarwyddwr am gadw cyfrifon y Llys a'r Cyngor a gweithredu fel Ysgrifennydd Cwmni'r Eisteddfod. Disgwylir iddo/iddi gynorthwyo'r Pwyllgorau Lleol i lunio eu hamcangyfrifon, ac i fod yn gyfrifol. am gyfrifon pob Eisteddfod, a'r Swyddog hwn fydd hefyd yn gyfrifol am weinyddu cynlluniau cyflogaeth ac yswiriant y Cyngor.

Bydd rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar brofiad helaeth mewn maes tebyg a byddai profiad o waith pwyllgor yn fantais.

Er mai yng Nghaerdydd y bydd y Swyddfa, disgwylir iddo/iddi dreulio peth amser yn Swyddfeydd y De a'r Gogledd a darparu adroddiadau i'r Pwyllgorau Lleol a'r Cyngor.

Bydd y cyflog oddeutu £5,500 y flwyddyn i ddechrau ac fe geir manylion llawn a ffurflen gais oddi wrth y Cyfarwyddwr, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 10 Park Grove, Caerdydd, CF1 3BN.

# Wythnos Yn Hanes Côr Glantaf

**Trwy lygad Alun Guy, Pennaeth yr Adran Gerdd.**

**Ni raid gwasgaru talentau ifainc Cymraeg y brifddinas a'r fro i ysgolion eraill erbyn heddiw. Bellach, ffrwynwyd y dalent gerddorol a sianelwyd y lleisiau o dan faner Côr Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.**

Neilltuwyd awr o ymarfer bob amser cinio dydd Mercher i'r Côr, ac awr gyffelyb ar ddydd Iau i'r gerddorfa. Âi seiniau nadoligaidd ar draws Afon Taf o'r Hydref ymlaen wrth baratoi am weithgarwch cyhoeddus cyntaf yr ysgol. Profwyd pob llais a gwahoddwyd 75 i'r ymarferion.

Roedd dydd Llun, Rhagfyr 11 yn garreg filltir yn hanes y Côr — gwrandawyr y 'Bwrdd Brecwast Cynnar' yn cael cip olwg megis ar hanes yr ysgol a'r Côr, a'r plant yn cael 'llais i gais'.

Y noson honno syllai tri chan pâr o lygaid ar gamrau nerfus y plant yn gorymdeithio efo'u canhwyllau ar eu ffordd i'n Bethlehem ni — Eglwys yr Holl Saint, Gogledd Llandaf. Llawenydd oedd gweld yr addoldy dan sang a chanu'r gynulleidfa yn ysbrydoliaeth i'r Côr; pawb efo'i raglen 'souvenir' brintiedig arbennig.

Gwireddwyd addewidion yr ymarferion gynt, a hwyliai'r cantorion trwy'r carolau gyda sicrwydd a phendantrwydd. Roedd cyfraniad yr organydd David Lloyd (ieithoedd modern) yn gymorth mawr i mi ac i'r Côr.

Cafodd y gwasanaeth naw llith a charol ei gyfoethogi gan gyfraniad y 25 disgybl nad oedd yn y Côr yn cyd-adrodd o dan lygaid gwyliadwrus yr hyfforddwraig Mrs Bethan Roberts. Gwahoddwyd athrawon, rheolwyr, ffrindiau a dau ddisgybl i ymuno â'r prifathro Mr Malcolm Thomas yn y naw darlleniad.

Yr oedd gan bob aelod o'r staff gyfraniad nodedig i'r nos Lun hanesyddol hwn; a darlleniadau, y canhwyllau, y goleuadau, y llwyfan a'r addurniadau yn yr Eglwys. Rhoddwyd y noson ar gof parhaol gan y Ffotograffydd Islwyn Jenkins. Yn dilyn y gwasanaeth daeth cyfle i'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon roddi gwasanaeth materol drwy baratoi'r arlwy arferol — diolch iddynt.

Nid oedd fawr o ymlacio i'r Côr — roedd hanner cant o Gymry'r Eglwys Newydd yn barod i roi croeso i ymweliad cyntaf yr ysgol ar y nos Iau. Ail-gynheuwyd y tân, yr emosiwn a'r brwdfrydedd heintus a losgai mor llachar a chynnes nos Lun. Rhoddwyd cyngerdd amrywiol i selogion y Gymdeithas a hawdd teimlo balchder Cymry'r ddinas yn yr ysgol newydd.

Doedd yr wythnos heb orffen i'r cantorion ifainc oherwydd cafwyd gwahoddiad gan gwmni recordio Eos (Y Barri) i wneud caset o'r carolau ar y dydd Gwener; hyn a wnaethpwyd a chlywyd y cynnyrch ar y radio dros yr Ŵyl ar noswyl a bore'r Nadolig (byddant) ar werth, £1 yr un, yn y flwyddyn newydd).

Ddiwedd yr wythnos hefyd daeth y newyddion fod dau wahoddiad arbennig wedi dod i'r Côr yn sgil perfformiad nos Lun. Un i ddanfon parti i Stuttgart ym Mehefin a'r llall yn ein gwahodd i Neuadd Albert Llundain i ganu mewn noson ryngwladol yn yr un mis.

Wrth ymlafnio efo'r cantorion, roedden nhw, y cyfeilydd a minnau yn gwerthfawrogi'n fawr bresenoldeb Mr Malcolm Thomas ym mhob un o'r rihyrsals awr ginio. Mae ysbryd iach, hapus ar gerdded trwy'r ysgol. Yn awr trown ein golygon at wythnos yn Llangrannog yn y mis bach, cyngerdd cerddorfaol amrywiol ym mis Mawrth ac eisteddfodau'r Urdd.


## MAE'R REFFERENDWM YN DOD!

**Beth fydd Cynulliad Cymreig yn ei olygu?**

**✱Trosglwyddo awdurdod o gyrff biwrocrataidd i gorff democrataidd.**

**✱Cyfle i Gymru fel cenedl archwilio'n fanwl y meysydd hynny sy'n hanfodol i'w bywyd bob dydd, megis Addysg, Iechyd, Tai, Ffyrdd, na ellir eu trafod yn llawn yn Nhŷ'r Cyffredin a'i amserlen orlwythog.**

**✱Fel corff wedi ei ethol yn uniongyrchol gan bobl Cymru bydd penderfyniadau'r Cynulliad yn fynegiant cadarn o ddyheadau'r genedl ym mhob maes.**

**A wnewch CHI —**

**Drefnu cyfarfodydd yn eich ardal?**

**Drefnu canfasio o dŷ i dŷ?**

**Gyfrannu tuag at y costau o argraffu taflenni, hysbysebu & c?**

**MAE'N RHAID ENNILL Y BLEIDLAIS!**

**PLEIDLEISIWCH DROS GYMRU A DEMOCRATIAETH!**

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag:**

**Ymgyrch Cymru dros y Cynulliad**
**Bocs PO 15**
**CAERDYDD CF2 2YR**


## Calendr y Refferendwm

**IONAWR**

31 Rali Cymru — Llafur/TUC, Merthyr.
31 Rali Oll-bleidiol, Aberdâr.

**CHWEFROR**

2 Dawns "Ie Dros Gymru" 8.30p.m. Top Rank, Caerdydd.
3 Gêm Cymru v Iwerddon: cyfarfod i ddosbarthu taflenni ym Mhencadlys yr ymgyrch, 90 Neville St., Caerdydd.
15 Cyfarfod Llafur/TUC, Casnewydd.
21 Cyfarfod Llafur/TUC, Abertawe. Siaradwyr: James Callaghan, Len Murray.
25 Y Lido, Aberafan. Cyngerdd Operatig "Ie Dros Gymru" gyda Syr Geraint Evans, Stuart Burrows, Elizabeth Vaughan, Delme Bryn Jones, Ann Edwards, Ryland Davies, Philip Madoc, Ruth Madoc, Ray Smith a'r Gerddorfa Gyngerdd Gymreig.


**Y mae eisiau**
**YSGRIFENNYDD NEU YSGRIFENYDDES**
(rhan-amser)

ar Fudiad ASH (Brwydr Iechyd a Smygu), i weithio o'r Swyddfa yn 90, Heol yr Eglwys Gadeiriol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn barod i weithio'n egniol dros yr achos, ac yn credu yn amcanion y mudiad.

Telir cyflog o tua £50 y mis i'r ysgrifenyddes bresennol.

*Ysgrifennwch am fanylion pellach at: David Lloyd,*
*ASH (Brwydr Iechyd a Smygu),*
*Canolfan Tenovus er Gwybodaeth Cancr,*
*90, Heol yr Eglwys Gadeiriol,*
*CAERDYDD. CF1 9LN.*


## Yr Urdd yn dathlu

**HANNER CANMLWYDDIANT EISTEDDFOD YR URDD**

Hanner can mlynedd yn ôl ym 1929, cynhaliwyd Eisteddfod gyntaf Urdd Gobaith Cymru yng Nghorwen.

Fel rhan o'r dathliadau yn y dref ym mis Medi 1979, bwriedir cynnal Arddangosfa i geisio cysylltu dyddiau cynnal yr Ŵyl â'r gweithgareddau presennol sef llinyn rhwng ddoe a heddiw.

Hoffwn apelio at eich darllenwyr am wybodaeth a lluniau o'r Eisteddfodau cynnar, cynhyrchion (llenyddiaeth, celf a chrefft), gwobrwyon (coron, cadair, brysgyll, medal), baneri'r adrannau, neu unrhyw beth fyddai'n dangos datblygiad yr Eisteddfod.

Buaswn yn ddiolchgar petae unrhyw un sydd a rhywbeth fel hyn yn ei feddiant, ac sy'n fodlon ei arddangos yn rhoi gwybodaeth i mi. Gallaf eich sicrhau y byddwn yn gofalu am bopeth a fenthycir ac yn ei ddychwelyd yn ddiogel.

LONA JONES,
Ysgrifennydd Pwyllgor yr Arddangosfa,
Gŵyl Dathlu Corwen 1929-79.

Crud y Gwynt, Glanrafon,
CORWEN, Clwyd.

Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf., Lower Cathedral Road, Caerdydd. Ffôn: (0222) 396262.